## Tasg 2

# Pwy wnaeth e?
# *(Whodunnit?)*

**Chwarae rôl: gwaith i grŵp o 4**

1. Rhaid i bawb ddarllen cerdyn - **Cerdyn Person 1, Cerdyn Person 2, Cerdyn Person 3,** neu **Gerdyn Person 4.**

2. Rhaid chwarae rôl.

3. Yna, rhaid penderfynu pwy wnaeth e – *Whodunnit*?

## Sut?

Gofynnwch y cwestiynau yma i'r bobl yn y grŵp:

**Pwy?**

- Pwy wyt ti?
- Faint ydy dy oed di?
- Ble wyt ti'n byw?
- Beth ydy dy waith di?
- Wyt ti'n hoffi Joshua Holmes? / Beth wyt ti'n feddwl o Joshua Holmes?

**Noson y parti?**

- Beth wnest ti yn y parti?
- Beth fwytaist ti?
- Beth yfaist ti?
- Pryd est ti allan o'r parti?
- Beth wnest ti?
- Beth glywaist ti?
- Beth welaist ti?

Beth ddigwyddodd:

| | |
|---|---|
| Pwy wnaeth e? | |
| Pam? | |

Mae'r ateb yn yr adran **Atebion**.

## Cerdyn Person 1

**Pwy wyt ti:** Alice Holmes, merch Joshua
**Oed:** 21
**Byw:** yn y Tŷ Mawr, gyda Joshua Holmes a fy llysfam, Belinda Holmes.
**Gwaith:** Gweithio yn y busnes Holmes Homes, busnes adeiladu

**Gwybodaeth bwysig:**

- caru Joshua ("Dad")
- teimlo'n flin gyda Joshua achos dw i a Sam (fy nghariad) eisiau mynd i deithio Asia ac roedd Dad yn dweud, "Na".

**Gwybodaeth bwysig:**

- dawnsio gyda Sam
- bwyta bwyd parti
- yfed sudd oren
- mynd allan tua 9.30 achos teimlo'n sâl
- mynd am dro yn yr ardd
- clywed sgrechian ac felly dod i mewn i'r tŷ

## Cerdyn Person 2

**Pwy wyt ti:** Sam Wilkins, cariad Alice
**Oed:** 25
**Byw:** mewn carafán wrth ochr y Tŷ Mawr
**Gwaith:** Briciwr yn Holmes Homes.

**Gwybodaeth bwysig:**

- ddim yn hoffi Joshua
- teimlo'n flin gyda Joshua achos mae Alice a fi eisiau mynd i deithio Asia ac roedd Joshua yn dweud, "Na"

**Gwybodaeth bwysig:**

- dawnsio gydag Alice
- bwyta bwyd parti
- yfed seidr
- mynd allan tua 9.45 i ffeindio Alice
- mynd i'r garafán ac yna o gwmpas yr ardd
- clywed sgrechian ac felly dod i mewn i'r tŷ

## Cerdyn Person 3

**Pwy wyt ti:** Belinda Holmes, gwraig Joshua

**Oed:** 43

**Byw:** yn y Tŷ Mawr, gyda Joshua Holmes ac Alice

**Gwaith:** gweithio mewn siop

**Gwybodaeth bwysig:**

- teimlo'n flin gyda Joshua achos roedd e'n sbwylio Alice
- eisiau agor siop – ond dim arian

**Gwybodaeth bwysig:**

- siarad gyda ffrindiau
- ateb y ffôn
- yfed lemonêd
- mynd allan o'r parti tua 9.50 i chwilio am Joshua
- mynd i'r ystafell wely – i chwilio am Joshua
- clywed sgrechian ac felly rhedeg i lawr i'r tŷ bach

## Cerdyn Person 4

**Pwy wyt ti:** Joseph Holmes, brawd Joshua

**Oed:** 45

**Byw:** mewn byngalo bach iawn dros nesaf i'r Tŷ Mawr

**Gwaith:** gweithio mewn siop sglodion yn y dref

**Gwybodaeth bwysig:**

- teimlo'n flin gyda Joshua achos roedd e'n rhedeg Holmes Homes – busnes y teulu – ac roedd e'n  byw yn y Tŷ Mawr – tŷ'r teulu – tŷ crand, hyfryd

**Gwybodaeth bwysig:**

- dawnsio gydag Alice
- siarad gyda ffrindiau
- bwyta bwyd parti
- ddim yn yfed
- mynd allan o'r parti am 10.15 – eisiau coffi
- mynd i'r gegin i wneud coffi
- clywed sgrechian ac felly rhedeg i'r tŷ bach